# COFNODION CYFARFOD ANARFEROL O'R CYNGOR A GYNHALIWYD AR 4YDD AWST 2025

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths, Cadeirydd (ar Zoom)

Morwenna Pugh

David Meirion Jones

Peter Jones

Troy Maclean

Dafydd Dafis (ar Zoom)

Mark Thomas (ar Zoom)

Rory Francis

Sioned Graham-Cameron, Clerc

**1. Ymddiheuriadau**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gareth Davies, Geoffrey Jones a Dewi Prysor Williams.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganodd Y Cynghorydd Mark Thomas fuddiant yn eitem 6, Cais i Ddefnyddio'r Parc ar gyfer parti.

**3. Materion Cadeirydd**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**4. Man Chwarae Aml-ddefnydd y Parc (MUGA)**

Adroddwyd bod gohebiaeth wedi ei derbyn gan bedwar person gwahanol. Adroddwyd hefyd nad yw cwmni yswiriant y Cygnor, Zurich, yn cynnig yswiriant ar gyfer gweithgareddau pêl-droed. Cafwyd trafodaeth eang, gyda rhai cyngorwyr o blaid talu fel taliad unwaith-ac-am-byth, ac eraill yn mynnu bod angen cyngor cyfreithiol ar y Cyngor Tref i weld os mai'r Cyngor oedd yn atebol mewn gwirionedd.

Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y Cyngor Tref yn talu'r hawliad fel arwydd o ewyllys da, fel taliad unwaith-ac-am-byth. O roi'r mater i bleidlais, reodd y Cynghorwyr canlynol o blaid: Marc Lloyd Griffiths, Mark Thomas, Troy Maclean, David Meirion Jones, Rory Francis. Yn erbyn roedd: Y Cynghorwyr Peter Jones, Morwenna Pugh a Dafydd Dafis.

Cynigiodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis bod y Cyngor Tref yn gofyn am gyngor i weld os oes gan y Cyngor yr hawl i dalu hawliadau fel hyn, ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh. O roddi'r mater i bleidlais, roedd y Cynghorwyr canlynol o blaid: Peter Jones, Morwenna Pugh a Dafydd Dafis. Yn erbyn roedd y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths, Mark Thomas, Rory Francis, Troy Maclean a David Meirion Jones. Felly, cynnig Y Cynghorydd Mark Thomas a basiodd.

**5. Cae Manod**

Trafodwyd cais i ddefnyddio Cae Manod ar gyfer hwylddydd i godi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth am yr ymgyrch i brynu'r Wynnes. Dywedodd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths bod angen gweld asesiad risg. Cynigiodd Y Cynghorydd Rory Francis bod caniatâd yn cael ei roi ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean a chytunodd pawb.

**6. Cais i ddefnyddio'r Parc ar gyfer Parti Pen-blwydd**

Nodwyd bod angen pwysleisio bod angen parchu'r Parc a chlirio unrhyw sbwriel. Dywedodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh y byddai'r agor y toiledau. Cynigiodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh ac eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis bod caniatâd yn cael ei roi ac chytunodd pawb.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.52pm

DRAFFT